# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2015** |
| Amser: | **09. – 11.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3032**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC** |
| Tystion: | **Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**<br>**Matt Denham Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Gareth David Thomas (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones AC.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Craffu at Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2015-2016

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth; Matt Denham-Jones, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau, Llywodraeth Cymru; a Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2015-2016: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Gohebiaeth gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr ohebiaeth, a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

## 7 Ymchwiliad etifeddiaeth

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad etifeddiaeth.

## 8 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Ystyried yr amserlen

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), a bydd yn ysgrifennu at y Llywydd.

## 9 Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad – Ebrill 2014 – Mawrth 2015

9.1 Eithriodd Peter Black ei hun o'r eitem yn sgîl ei rôl fel Comisiynydd.

9.2 Bu’r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer Ebrill 2014 tan fis Mawrth 2015.

9.3 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, a chytunodd i ysgrifennu at Claire Clancy i gael rhagor o wybodaeth.